

Cyfarfod Statudol Staff
Uned Tŷ Aran
16:00, 26 Fehefin 2014

Yn bresennol:

Garem Jackson (Arweinydd y Prosiect), Medwyn Griffiths (Swyddog Cefnogi Prosiect), 3 aelod o staff.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Garem Jackson. Rhoddodd Garem gyflwyniad ar lafar ynglŷn â manylion y cynnig gan gyfeirio at cynnwys y dogfen ymgynghori a pecyn cefndirol . Trafodwyd yr effaith ar y gymuned, effaith ar yr iaith Gymraeg, effaith cydraddoldeb a materion personél gan Medwyn gan roi taflen gyda mwy o fanylion a chyfeiriadau cyswllt yr adranpersonel iddynt. Eglurwyd hefyd mai 'ail-leoli' Ysgol Hafod Lon ac Uned Tŷ Aran yw'r cynnig ac felly yn golygu y bydd y staff i gyd yn trosglwyddo i'r ysgol newydd heb orfod ymgeisio am eu swyddi a mynd drwy'r broses.

Yn dilyn y cyflwyniad agorwyd y drafodaeth i dderbyn sylwadau a chwestiynau. Derbynyd 2 sylw:

- a) Teimlo fod Uned Tŷ Aran yn gweithredu yn union fel Tŷ Meirion gyda phlant yn integreiddio i'r prif-lif felly pam parhau gyda'r ddarpariaeth yn un a ddim y llall?
- b) Teimlo fod y Cyngor wedi rhoi llai o blant i mewn i'r Uned ers rhai blynyddoedd er mwyn cryfhau'r achos i'w gau.

Mae ateb i'r 2 gwestiwn i'w weld yn y ddogfen **Ymateb i sylwadau o'r ymgynghoriad statudol (Atodiad 8)**.